

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **13 Mawrth 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-03/17: Presennol**

Cadeirydd Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng. Henry Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng. Elizabeth Reagan; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Elizabeth George, Cyng. Dafydd Lloyd; ; Cyng. Wayne T Roberts, ; Cyng. Sian Williams. Clerc – Dr Catrin Jones.

### **2-03/17 Ymddiheuriadau:**

Pawb yn bresennol

### **3-03/17: Datgan diddordeb**

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

### **4-03/17: Cadarnhau cofnodion mis Ionawr 2017**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

### **5-03/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)**

- a. **Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor.** Nodwyd y byddai cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor ar nos Fercher 22 Mawrth –i'w fynychu gan y Cadeirydd a'r Clerc. Bydd Iwan Williams o swyddfa Comisiynydd Pobl hyn yn bresennol i sôn am ddyletswyddau a blaenoriaethau'r Comisiynydd, gyda gwybodaeth am berthnasedd ei gwaith i gynghorau cymuned a thref.
- b. **Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn** Nodwyd bod Bwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn wedi danfon fersiwn ddrafft o asesiad barn trigolion o lesiant yng Ngwynedd. Roedd adroddiad ar wahan ar gyfer Môn. Yn y pendraw byddai y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn defnyddio'r asesiadau yma ynghyd â nifer o ffynonellau eraill i lunio Cynllun Llesiant. Roedd yn holl bwysig felly bod yr asesiad yn adlewyrchiad teg o'n hardaloedd, ac yn edrych ar beth oedd yr heriau a'r cyfleodd i'r dyfodol. Roedd gwahoddiad i leisio barn drwy lenwi holiadur ar-lein neu ar bapur erbyn Ebrill 13. Roedd y wybodaeth i'w weld ar [www.llesiantgwyneddamon.org](http://www.llesiantgwyneddamon.org). Byddai y Cyngor yn penderfynnu ar ymateb yn y cyfarfod nesaf.

## 6-03/17: Gohebiaeth

### a. **Un Llais Cymru – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei Papur Gwyn “Diwygio**

**Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddu** – wedi ei lawnsio ym mis Ionawr gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol . Roedd gwahoddiad i ymateb erbyn 11 Ebrill 2017. Roedd cyswllt i'r ymgynghoriad ar Wefan y Cyngor.

**Penderfyniad:** Bydd y Clerc yn danfon manylder adran 6 a oedd yn cyfeirio at Gyngorau Cymuned i aelodau er mwyn ystyried yr ymateb i'r adran hon yn benodol yn y cyfarfod nesaf.

### b. **Un Llais Cymru – Arolwg 2018 ymgynghoriad y Comisiwn ar newidiadau a gynigir i etholaethau Seneddol yng Nghymru (ebost 20/2/2017)**

Nodwyd bod y Comisiwn wedi dechrau cyfnod statudol o bedair wythnos lle gall unigolion a sefydliadau ddarllen yr ymatebion a wnaeth ar y newidadau a gynigir i etholaethau Seneddol yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad rhwng 28 Chwefror a 27 Mawrth. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ymatebion ysgrifenedig a'r ymatebion llafar a wnaed mewn gwrandawladau cyhoeddus ar wefan y Comisiwn. Nodwyd hefyd y wybodaeth a oedd wedi dod wrth Cyngor Gwynedd sydd wedi, yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth wedi penderfynnu dilyn y drefn isod:

- Cyfnod cyn etholiad: swyddogion i greu cynigion drafft
- Rhannu'r cynigion drafft gyda holl aelodau'r Cyngor newydd yn dilyn yr etholiad
- Pwyllgor Archwilio'r Cyngor i edrych ar y cynigion a'r sylwadau gan aelodau ac i benderfynu ar yr argymhellion drafft i'w cyflwyno i'r Cyngor
- Cyngor Llawn ym Mehefin 2017 i benderfynu ar y cynigion i'w cyflwyno i'r Comisiwn.

Roedd Cyngor Gwynedd yn hannog cyngorau cymuned i gyflwyno sylwadau neu gynigion yn uniongyrchol i'r Comisiwn. Byddai Cyngor Gwynedd yn croesawu copïau o unrhyw sylwadau lleol sydd gennym ar faterion o fewn eich ardaloedd. Hefyd, os oedd y Cyngor yn dymuno aros nes bod cynigion cychwynol Cyngor ar gael, roedd croeso i wneud hynny Nodwyd y byddai'r ymgynghoriad yn cau diwrnod olaf mis Mai.

**Penderfyniad:** Aros i weld beth oedd cynigion drafft y Cyngor Sir cyn ymateb.

### c. **Cyngor Gwynedd- Etholiadau Cyngorau Tref/Cymuned 2017**

Roedd gohebiaeth wedi dod oddiwrth swyddfa'r Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag etholiadau Cyngorau Tref/Cymuned. Roedd angen i aelodau presennol y Cyngor a oedd yn dymuno bod yn ymgeiswyr yn yr etholiad lenwi a dychwelyd ffurflen Cydsyniad Ymgeisydd erbyn 4.00 pm 4 Ebrill 2017.

Dosbarthwydd y ffurflenni yn y cyfarfod. Roedd yn bwysig bod ymgeiswyr wedi cwblhau'r ffurflenni perthnasol i gyd yn gywir cyn eu cyflwyno – canllawiau

Comisiwn Etholiadol : [www.electoralcommission.org.uk](http://www.electoralcommission.org.uk). Roedd modd i gyngorwyr gysylltu gyda y swyddfa yng Nghaernarfon hefyd.

Nodwyd bod angen arddangos Rhybuddion Etholiad o'r dyddiad cyhoeddi , 17 Mawrth 2017. Byddai y rhybuddion ar gael yn Llyfrgell Criccieth.

- d. **Siarter Coed, Coedwigoedd a Pobl** - eleni roedd mwy na 50 o sefydliadau ar draws y Deyrnas unedig wedi partnerii lawnsio y Siarter ar 6 Tachwedd 2017. Byddai yn gosod allan canllawiau ac egwyddorion ar sut roedd cymunedau lleol a choed yn medru cael y budd gorau o'u gilydd. Byddai yn adnodd y medr cymunedau a chynghorau ddefnyddio i gefnogi ei hymdrechion i ofalu am ei coed ac i sicrhau bod ei cymuned yn cael y buddion o hyn. Roedd nifer o'r cynghorwyr wedi ymateb i'r holiadur.

**Penderfyniad** : cyfeirio y wybodaeth at sylw Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth.

- e. **Cyfarfod nesaf Bwrdd Rhaglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a chynlluniau coffa 2018 100 Mlynedd o gofio - 11 Tachwedd 2018** – Nodwyd bod gwahoddiad i fod yn bresennol a chyflwyno rhaglen weithgareddau (ebost 15/2/2017). Roedd y Cyngor wedi cytuno i fod yn rhan o'r Rhaglen, drwy cael "beacon"/tan yng Ngriccieth, a'r Clerc wedi cysylltu yn dilyn y cyfarfod diwethaf i gadarnhau hyn. Roedd angen paratoi papur byr ar gynlluniau y coffa ar gyfer 2018 mewn papur i'w gyflwyno i Fwrdd Rhaglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn y cyfarfod nesaf ar 5 Mai. –Roedd angen danfon ymateb erbyn 26 Mawrth.

**Penderfyniad** : cyfeirio y wybodaeth at sylw Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth ac hefyd i yrru ymateb cadarnhaol i ddweud y byddai rhaglen yn cael ei baratoi mewn partneriaeth gyda chymdeithasau lleol.

- f. **Un Llais Cymru- Ymgynghoriad ar gylchlythyr drafft ar gyfer cynllunio safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn** (ebost 27/2/2017)

Nodwyd mae'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 22 Mai 2017.

**Penderfyniad:** Gofynnwyd i aelodau ystyried a bydd ymateb yn cael ei gytuno yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor.

- g. **Rali Llŷn Mawrth 18/19 2017** (ebost 23/2/2017) Roedd gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglŷn â'r rali ar gyfer uchafswm o 90 o gerbydau. Byddai'r ceir yn cychwyn o Bwllheli am tua 11.30 o'r gloch yr hwyr ac yn teithio tua 110 o filltiroedd ar hyd ffyrdd Llŷn. Trefnwyd y rali yn unol â Rheoliadau Cerbydau Modur (Cystadleuthau a Threilaon a Rheoliadau Cyffredinol y "Royal Automobile Sport Association Ltd". Estynnwyd diolch i'r holl drigolion a thirfeddianwyr am eu cydweithrediad a goddefgarwch ar hyd y blynyddoedd.

**Penderfyniad:** rhoi hysbyseb fyny ar hysbysfwrdd y Cyngor

- h. **Un Llais Cymru – Digwyddiad ar y Cyd rhwng Un Llais Cymru/SLCC 12 Gorffennaf 2017** (ebost 20/2/2017)

Nodwyd bod y digwyddiad yn bwysig iawn i gynghorau gan ei fod yn edrych ar feysydd allweddol fel cryfhau capasiti a galluedd y sector, datganoli gwasanaethau a chyllid/atebolrwydd. Byddai'r diwyddiad yn cynnig cyfle pwysig iawn i gynghorau glywed y diweddaraf am faterion cyfredol a chyfleoedd a oedd ar gael i'r sector. Byddai nifer o siaradwyr amlwg a sesiynau gweithdy. Cost y diwyddiad oedd £69 y person a TAW.

**Penderfyniad:** Y Clerc i fynychu.

#### **7-03/17: Ceisiadau Cynllunio**

- a. C17/0179/35/LL Cais materion a godwyd yn ol ar gyfer codi un annedd yn dilyn caniatad amlinellol o dan gyfeirnod C13/129/35/AM – Modwenna, Geraint Road, Criccieth, Gwynedd, LL52 0HR

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

#### **8-03/17: Baner Cymru – Castell Criccieth Dydd Gwyl Dewi 2017**

Nodwyd yr anfodlonrwydd am y ffaith na fu baner Cymru yn chwifio ar y Castell ar Ddydd Gwyl Dewi Roedd y Cynghorydd Eirwyn Williams wedi cysylltu gyda Cadw ac wedi cael ymateb mai o ganlyniad i asesiad risg iechyd a diogelwch o ran y tywydd oedd y rheswm. Nid oedd y rhagolygon tywydd fodd bynnag yn ymddangos yn broblem ddigonol ar gyfer y penderfyniad yma.

#### **9-03/17: Cyfarfod Pwyllgor Cyllid 6 Mawrth 2017**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod gan y Cyngor.

a. 6-03/17 Llywodraeth Cymru: uchafswm gwariant 2017-18

Nodwyd mai 1301 oedd nifer etholwyr Criccieth – felly y mwyaf y gallai'r Cyngor wario at ddibenion elusennol ac eraill penodol yn 2017/18 fyddai £9848.57, sef £7.57 x1301.

b. 8-03/17 Diweddariad ar gyfrifon 2016/17

Nodwyd bod £11,721.16 wedi'i wario erbyn diwedd Ionawr a bod costau Chwefror a Mawrth eto i ymddangos ar y cyfrifon.

Nodwyd hefyd y byddai yn rhaid i'r Cyngor fel corff gymeradwyo y cyfrifon mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor ym mis Ebrill.

c. 7-03/17 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol aelodau Cyngorau Cymuned a Thref

Roedd yr Is-Bwyllgor wedi trafod argymhellion y Panel ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a **phenderfynodd** y Cyngor ar gyfer 2017/18 i dderbyn yr argymhelliad o gadw at yr un drefn o dalu £200 i'r Cadeirydd a chostau treuliau/parcio a chynhaliaeth i'r holl Gynghorwyr sydd yn mynychu cyfarfodydd/gwneud gwaith ar ran y Cyngor.

d. 9-03/17 Cyllideb 2017/18 –

**Penderfyniad** i dderbyn yn fras y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017/18, gan nodi y byddai y ffigurau terfynol yn cael ei cadarnhau yng nghyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor.

**10-03/17: Cyngor Gwynedd – Toiledau Cyhoeddus Criccieth 2017/18**

**Penderfyniad:** i dderbyn argymhelliad yr Is-Bwyllgor Cyllid i arwyddo cytundeb partneriaeth o £6,000 gyda Chyngor Gwynedd fel cyfraniad y Cyngor Tref i gynnal toiledau cyhoeddus yr Esplanade (tymhorol) a'r Maes Parcio (trwy'r flwyddyn).

**11-03/17 Arolwg Cyngorau Tref a Chymuned gan Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru**

Roedd yr Is-Bwyllgor Cyllid wedi ystyried yr ymatebion ac yn cynnig i'w cymeradwyo gan y Cyngor.

**Penderfyniad:** Ymateb yn unol ag argymhelliad yr Is-Bwyllgor Cyllid.

**12-03/17 Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth**

Nodwyd nad oedd cyfarfod o'r Grŵp wedi bod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Roedd Ms Cerys Thomas wedi gyrru cynllun drafft erbyn hyn. Cytunwyd i geisio trefnu y cyfarfod nesaf ar 27 Mawrth.

Nodwyd hefyd bod yna wybodaeth o grant fyny at £1000 wedi ei dderbyn oddiwrth Grŵp Cynefin, sef Grant Cymunedol Hafod y Gest ar gael i grwpiau a oedd eisiau gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau lleol. Roedd y Clerc yn aros am gadarnhad a oedd y Grŵp Llywio yn gymwys i wneud cais.

### **13-03/17 Ceisiadau am gyfraniadau ariannol**

Nodwyd bod un cais wedi ei dderbyn gan Ganolfan Therapi Plant Bobath Cymru.

**Penderfyniad:** Yn unol â pholisi y Cyngor, nid oedd modd cyfrannu. -

### **14-03/17 Parcio yng Nghriccieth**

- a. Nodwyd bod ymateb wedi dod gan Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn dilyn trafodaeth y Cyngor ynglŷn â'r cyfyngiadau parcio newydd yng Nghriccieth: *"Diolch yn fawr i chwi am eich e-bost yn ein hysbysu nad oes gan Gyngor Tref Criccieth wrthwynebiad i'r bwriad i wneud y gorchymyn uchod. Nodaf fod y Cyngor yn awyddus bod y llinellau melyn rhwng yr orsaf bad achub a Blue China yn weithredol drwy gydol y flwyddyn. Yn anffodus, does dim modd i ni ychwanegu hyn i'r gorchymyn yma, ond fe fyddaf yn gyrru eich sylwadau at y Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd, er mwyn iddynt ystyried gwneud hyn yn y dyfodol"*.

**Penderfyniad:** i ofyn am amserlen ar gyfer ychwanegu dymuniad y Cyngor ar gyfer y dyfodol.

- b. Nodwyd bod angen arwydd ar gyfer y prif faes parcio yng Nghriccieth.

**Penderfyniad:** i ofyn am ganiatad Cyngor Gwynedd ar gyfer gosod arwydd i gyfeirio ymwelwyr i'r maes parcio.

### **15-03/17 Goleuadau Nadolig**

Nodwyd nad oedd rhagor o fanylion wedi ei dderbyn am gostau ychwanegol ar gyfer ehangu y goleuadau yn 2017.

### **16-03/17: Llwybr o Benaber i'r parc**

Nodwyd nad oedd gwybodaeth bellach wedi dod i law oddiwrth Cyngor Gwynedd. Roedd y Clerc wedi derbyn cynwngan aelod o'r cyhoedd am y sefyllfa a'r broblem ddŵr.

**Penderfyniad :** Y dylid ysgrifennu at Pennaeth Gwasanaeth Cyngor Gwynedd i dynnu sylw i'r mater ac i ofyn am ymateb ar frys.

### **17-03/17: Torri gwair yn y dref**

Nodwyd bod y Clerc wedi sgwennu at Mr Dafydd Wyn Williams yn Cyngor Gwynedd i holi am amserlen ar gyfer y torri gwair er mwyn galluogi trefnu y torri gwair ychwanegol ar gost i'r Cyngor Tref. Hefyd roedd wedi holi beth fyddai'r adaliad gan Gyngor Gwynedd pe bai Cyngor Criccieth yn cymeryd cyfrifoldeb am dorri y gwair yn y dyfodol. Roedd yn aros ymateb.

#### **18-03/17: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol**

Doedd dim rhagor o wybodaeth swyddogol wedi dod i law ond roedd sôn bod y Llyfrgell yn symud ar 24 Ebrill.

#### **19-03/17:Cronfa John Trefor Roberts**

Mynegwyd pryder ac anfodlonrwydd nad oedd gwybodaeth bellach wedi ei dderbyn gan Age Gwynedd a Môn yn dilyn cais am y fantolen ar gyfer y gronfa. Roedd consyrn gan y Cyngor am y diffyg gwariant ymddangosiadol ac atebolrwydd ar gyfer gwariant o'r cyllid ar gyfer Criccieth.

#### **20-03/17 Llwybrau cyhoeddus**

a. Nodwyd nad oedd gwybodaeth bellach wedi dod i law oddiwrth Cyngor Gwynedd.

**Penderfyniad :** Y dylid ysgrifennu at Pennaeth Gwasanaeth Cyngor Gwynedd i dynnu sylw i'r mater ac i ofyn am ymateb ar frys.

b. Nodwyd bod y Cynghorydd Wayne Roberts wedi gwneud ymholiadau pellach am Lwybr 11 a bod y Ramblers yn cymeryd cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r problemau sydd wedi bod ar y gweill ers 2012.

#### **21-03/17: Derbyniadau**

Cyngor Gwynedd – ad-daliad torri gwair £487.79

#### **22-03/17: Taliadau**

- Cyllid y Wlad (PAYE) Chwefror £76.60 (siec 101046)
- Cyflog y Clerc (Chwefror) £306.74 (siec 101047)
- Costau Clerc £283.33..(siec 101048)
- Tâl blynyddol y Cadeirydd £200.00 (siec 101049)
- Un Llais Cymru – Tâl Aelodaeth 2017/18 £283.00 (siec 101050)
- Un Llais Cymru – cost mynychu cwrs Cyllid Llywodraeth Leol £35.00 (siec 101051)
- Mynwent Newydd Llanystumdwy £1000.00 (siec 101052)
- Pared Dewi Sant Pwllheli £100.00 (siec 101053)

Rhoddwyd ganiatad i'r clerch i dalu'r biliau.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref **nos Lun 10 Ebrill 2017.**

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 1 Ebrill 2017\*\***